# Taflen Wybodaeth Dosbarth Eithin, Ysgol Pentrecelyn

Mae wedi bod yn hyfryd croesawu plant yn ôl i'r ysgol a'u gweld yn gwenu wrth iddynt gychwyn neu ddychwelyd i Ddosbarth Eithin. Gobeithio y bydd y llythyr hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am y tymor, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch wyneb yn wyneb neu drwy ebost.



**Hwb/J2e** Yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn defnyddio app J2e sydd yng nghyfrif Hwb eich plentyn ar gyfer nifer o dasgau iaith, mathemateg a thema. Bydd unrhyw waith cartref yn ychwanegol i ddarllen bob penwythnos yn ogystal ag ymarfer tablau a sillafu ar J2blast yn cael ei osod ar J2homework. Os oes gennych unrhyw broblemau wrth ei ddefnyddio, rhowch wybod i ni a byddwn yn hapus i helpu.

**Llyfrau Darllen-** Bydd bag darllen yn cael ei yrru adref ar brynhawn Dydd Iau fel gwaith cartref. Cofiwch atgoffa'r plant i'w ddod a fo'n ôl ar fore Dydd Llun os gwelwch yn dda. Bydd gan bob disgybl lyfr darllen Cymraeg a Saesneg ac maent yn eu darllen yn rheolaidd gydag aelodau o staff yn ystod yr wythnos, felly byddwn yn ddiolchgar iawn os wnewch chi ddod i'r arferiad o'u gyrru mewn ar fore Llun.



**Byrbryd**– Yn ystod y bore cyn amser chwarae bydd plant Dosbarth Eithin yn cael byrbryd. Bydd amrywiaeth o ffrwythau gan siop leol yn cael ei gynnig i'r plant ynghŷd â diod o laeth. Gofynnwn yn garedig i chi am gyfraniad o £1.50 yr wythnos, gan ei dalu ar 'Parent Pay'.



**Boteli dŵr–** Bydd pob plentyn yn derbyn potel dŵr Ysgol Pentrecelyn newydd i'w gadw yn y dosbarth ac byddent yn llenwi a gwagu y poteli yn ddyddiol. Bydd modd iddynt yfed dŵr yn annibynnol yn ystod y dydd. Bydd unrhyw fotel o adref yn cael ei gadw yn y bag ar gyfer amseroedd rhydd.



**Thema**– Ein thema yr hanner tymor yma fydd Y Celtiaid a Horrible Histories. Byddwn yn ymchwilio i fywyd yn amser y Celtiaid yn lleol ac yng Nghymru. Byddwn yn cymryd rhan mewn gweithdai rhithiol a gobeithio cawn ymweld a safle archeolegol leol. Byddwn yn cysylltu y thema gyda 6 maes dysgu y cwricwlwm newydd. Yn dilyn Hanner Tymor byddwn yn cychwyn y thema Dathliadau.

**Ymarfer Corff—** Bydd sesiwn ymarfer corff yn cael ei gynnal Dydd Iau. Bydd angen i bob plentyn ddod i'r ysgol mewn gwisg addas (tracwisg neu siorts, crys-T ac esgidiau ymarfer corff) ar fore dydd Iau.



**Gwener Gwych–** Rydym fel Ysgol yn credu bod cynnig profiadau amrywiol i blant yn bwysig iawn. Felly pob prynhawn dydd Gwener, byddwn yn cynnig llu o weithgareddau cyffrous ar eu cyfer. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion sicrhau bod esgidiau addas fel welingtons yn cael ei gadael yma yn yr Ysgol, fel ein bod yn medru gwneud y gorau o'r Ysgol goedwig naturiol a'r gymuned.

Rydym yn defnyddio App yr Ysgol, Facebook ac Instagram i rannu newyddion gyda rhieni– **Ysgol Pentrecelyn.**

Mae gwefan yr ysgol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth Ysgol, a dyma lle gallwch chi lawrlwytho app yr ysgol er mwyn cael gwybod am newyddion ysgol gyfan.